Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 02.12.2020

## Grant Dewisol clo byr Hydref/Tachwedd yn cau yn fuan

Mae Cyngor Gwynedd yn annog busnesau yn y sir gafodd eu heffeithio'n sylweddol gan y clo byr yn Hydref a Thachwedd i gyflwyno eu ceisiadau ar gyfer cymorth ariannol Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosib. Mae Grant Dewisol y Cyfyngiadau i fusnesau sydd ddim yn talu Trethi Busnes yn parhau ar agor, ond peidiwch ag oedi rhag cyflwyno eich cais gan bod disgwyl iddo gau yn fuan. Wrth ymgeisio, bydd sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol sy'n ofynnol yn cael eu darparu, a sicrhau bod y cais yn cael ei lenwi'n gywir yn cyflymu'r broses. Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio ewch i:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Grantiau-cloi.aspx

# Cronfa Gweithwyr Llawrydd Cam 3 yn cau 7 Rhagfyr 2020

Mae llai na wythnos ar ôl i wneud cais ar gyfer y Gronfa Lawrydd, bydd Cam 3 o'r gronfa yn cau am 5:00pm ddydd Llun 7 Rhagfyr 2020. Mae'r Gronfa bellach wedi ei ymestyn i gynnig cefnogaeth i weithwyr llawrydd yn y maes digwyddiadau nad ydynt yn gysylltiedig â chwaraeon. Os ydych eisoes wedi derbyn cymorth o'r Gronfa ni ddylid cyflwyno cais pellach ond fe allai Grant Dewisol y Clo Byr (wedi nodi uchod) fod o gymorth. I wirio eich cymhwysedd, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy

# Diweddariad: Cyhoeddi cyfyngiadau newydd wedi'u targedu yn y sectorau lletygarwch a hamdden

- Cymorth ariannol i fusnesau yr effeithir arnynt gan y cyfyngiadau ychwanegol a fydd yn dechrau ar 4 Rhagfyr 2020

Yn dilyn cyhoeddiad y Prif Weinidog, Mark Drakeford, parthed cyfres o gyfyngiadau newydd wedi'u targedu yn y sectorau lletygarwch a hamdden, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau datganiad ysgrifenedig yn amlinellu'r manylion am y cymorth ariannol fydd ar gael i fusnesau yr effeithir arnynt gan y cyfyngiadau ychwanegol a fydd yn dechrau ar 4 Rhagfyr 2020. Mae manylion am strwythur y cymorth yma a sut i ymgeisio amdano fo eto i'w gadarnhau, ond unwaith byddwn yn derbyn gwybodaeth parthed hyn, mi wnawn ni rannu o efo chi. Am y datganiad, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymorth-ariannol-i-fusnesau-yr-effeithir-arnynt-gan-y-cyfyngiadau-ychwanegol

# Newyddion Croeso Cymru 1 Rhagfyr 2020

Ceir gwybodaeth pellach am ffynonellau arian ac am y rheoliadau ar gyfer lletygarwch ym mwletin diweddaraf Croeso Cymru, ewch i:

https://bit.ly/NewCroesoCymru01Rhag2020

# Annog siopa'n lleol yng Ngwynedd y Nadolig hwn

Mae Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau datganiad yn annog pobl y sir i gefnogi ein siopau stryd fawr a busnesau lleol y Nadolig hwn. I gefnogi'r ymgyrch siopa Nadolig lleol, mae'r Cyngor yn darparu parcio am ddim ym meysydd parcio'r Cyngor o 12 tan 27 Rhagfyr 2020. Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cynnal ymgyrch ar y gwefannau cymdeithasol yn annog pobl i gefnogi siopau lleol y Nadolig hwn. Fel rhan o'r ymgyrch, bydd gwybodaeth am lu o fusnesau lleol i'w gweld ar y wefan isod:

https://bit.ly/prynulleol2020

Petai busnes am gael ei ychwanegu i'r rhestr ar y wefan yma, gellir cysylltu â:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

I weld y datganiad yn llawn, ewch i:

https://bit.ly/DatganiadGwynedd27Tach2020

# HWB Menter M-Sparc: Dosbarthiadau Meistr Trefi SMART

Cyfres o 5 Dosbarth Meistr yn ffocysu ar sut gall data helpu canol trefi a strydoedd mawr addasu yn dechrau 10 Rhagfyr 2020.
Yn dilyn o'r digwyddiad rhagarweiniol ar Hydref 2020, 'Adfywio o Covid19: Trefi SMART', bydd bob Dosbarth Meistr yn ymdrin mewn mwy o fanylder a phwnc penodol yn gysylltiedig â Threfi SMART. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/39A48SX

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru